# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 11
08/06/20

# Philip a'r Ethiopiad

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams, Greg Leavers,
& Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org




# Stori

**Fersiwn Beibl.net**

Roedd Philip wedi cael neges gan angel yr Arglwydd yn dweud wrtho: “Dos i lawr i'r de i ffordd yr anialwch, sef y ffordd o Jerwsalem i Gasa.” Aeth Philip ar unwaith, a phan oedd ar ei ffordd dyma fe'n dod ar draws eunuch oedd yn swyddog pwysig yn llywodraeth y Candace, Ref sef Brenhines Ethiopia – fe oedd pennaeth ei thrysorlys. Roedd wedi bod yn Jerwsalem yn addoli Duw, ac roedd yn darllen llyfr proffwydoliaeth Eseia wrth deithio yn ei gerbyd ar ei ffordd adre. Dyma'r Ysbryd Glân yn dweud wrth Philip, “Dos a rheda wrth ymyl y cerbyd acw.”

Felly dyma Philip yn rhedeg at y cerbyd, ac roedd yn clywed y dyn yn darllen o lyfr proffwydoliaeth Eseia. Felly gofynnodd Philip iddo, “Wyt ti'n deall beth rwyt ti'n ei ddarllen?”



“Sut alla i ddeall heb i rywun ei esbonio i mi?” meddai'r dyn. Felly gofynnodd i Philip fynd i eistedd yn y cerbyd gydag e. Dyma'r adran o'r ysgrifau sanctaidd roedd yr eunuch yn ei ddarllen:

“Cafodd ei arwain fel dafad i'r lladd-dy.
Yn union fel mae oen yn dawel pan mae'n cael ei gneifio, wnaeth e ddweud dim.
Cafodd ei gam-drin heb achos llys teg.
Sut mae'n bosib sôn am ddisgynyddion iddo?
Cafodd ei dorri i ffwrdd o dir y byw.”

A dyma'r eunuch yn gofyn i Philip, “Dwed wrtho i, ydy'r proffwyd yn sôn amdano'i hun neu am rywun arall?” Felly dyma Philip yn dechrau gyda'r rhan honno o'r ysgrifau sanctaidd, ac yn mynd ati i ddweud y newyddion da am Iesu wrtho. Wrth fynd yn eu blaenau, dyma nhw'n dod at le lle roedd dŵr. “Edrych,” meddai'r eunuch, “mae dŵr yn y fan yma. Oes yna unrhyw reswm pam ddylwn i ddim cael fy medyddio?” Rhoddodd orchymyn i'r cerbyd stopio. Wedyn aeth gyda Philip i lawr i'r dŵr, a dyma Philip yn ei fedyddio yn y fan a'r lle. Wrth iddyn nhw ddod yn ôl allan o'r dŵr, dyma Ysbryd yr Arglwydd yn cipio Philip i ffwrdd. Wnaeth yr eunuch mo'i weld ar ôl hynny, ond aeth yn ei flaen ar ei daith yn llawen.

Cafodd Philip ei hun yn Asotus! Yna aeth yn ei flaen i Cesarea gan gyhoeddi'r newyddion da ym mhob un o'r trefi ar y ffordd.

*Actau 8:26-40 Beibl.net*

**Fersiwn syml**



Un diwrnod roedd Philip ar y ffordd o Jerwsalem i Gasa. Yn sydyn, dyma'r Ysbryd Glân yn dweud wrtho fo, “Rheda at y cerbyd draw fanna!” Rhedodd Philip draw a chlywodd dyn o Ethiopia yn darllen o'r Beibl. Ond doedd o ddim yn deall beth roedd yn ei ddarllen! Felly aeth Philip i fewn i'r cerbyd ac esboniodd iddo fo am Iesu. Credodd y dyn yn syth, a dyma Philip yn ei fedyddio yn y fan a'r lle!

# Cwestiynau i’w Trafod



Ar ôl darllen y stori gyda’n gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Pa fath o bethau ydych chi’n cael trafferth i’w deall?
2. Pwy sy’n eich helpu i ddeall pethau?
3. Yn yr hanes beth oedd yr Ethiopiad yn cael trafferth i’w ddeall?
4. Ar ôl i Philip ei helpu i ddeall beth oedd yn ei ddarllen, pam ydych chi’n meddwl fod yr Ethiopiad eisiau cael ei fedyddio?

# Lliwio



Molwch yr Arglwydd, chi Genhedloedd i gyd!
Canwch fawl iddo, holl bobloedd y byd!

Salm 117 adnod 1

# Philip yn bedyddio dyn o Ethiopia

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp Cyf. Susan Williams Lluniau: Richard Gunther





Does dim gwahaniaeth o ba wlad rwyt ti'n dod, na pha mor hir wyt ti wedi credu fod Iesu'n Fab Duw, mi fedri di gael dy fedyddio.



Roedd Philip a rhai eraill o ddisgyblion Iesu'n dweud wrth bobl am Iesu, Mab Duw, ym mhentrefi bychain Samaria a daeth llawer yno i gredu'r Newyddion Da.




Yna anfonodd Duw angel i ddweud wrth Philip, "Dos draw i'r cyfeiriad acw, i'r anialwch. Mae gan yr Arglwydd rywbeth i ti ei wneud."



Roedd Philip yn ceisio dyfalu pam fod Duw wedi'i anfon i le mor unig ond gwyddai fod Ysbryd Duw gydag ef. Roedd yr Arglwydd eisiau i Philip ddweud wrth rywun am Iesu.



Yn fuan iawn daeth dyn pwysig iawn o wlad Ethiopia heibio yn ei gerbyd. Ei waith oedd gofalu am arian a thrysorau Brenhines Ethiopia. Pan aeth heibio Philip roedd yn darllen geiriau o lyfr Eseia yn y Beibl.



Gofynnodd Philip i'r dyn os oedd o'n deall y geiriau'r oedd yn eu darllen. "Fedra i mo'u deall,"atebodd, "a does gen i neb i'w hegluro i mi."



Felly dyna Philip yn esbonio i'r dyn o Ethiopia fel roedd Duw wedi ysgrifennu amser maith yn ôl am ei Fab Iesu, ac fel y byddai pwy bynnag oedd yn credu ynddo ac yn cael ei fedyddio yn dod yn blentyn i Dduw.



"Rydw i eisiau cael fy medyddio'r funud yma,"dywedodd y dyn o Ethiopia." Os wyt ti wir yn credu'n Iesu, fe gei di dy fedyddio," atebodd Philip. "Rydw i wirioneddol yn credu fod Iesu'n Fab Duw," cyhoeddodd y dyn o Ethiopia, felly bedyddiodd Philip ef yn yr afon gyfagos.

# Gweddi fer




O Dduw,
Diolch i Ti am yr hanes am Philip yn helpu'r dyn o Ethiopia i ddeall oedd Iesu. Diolch i Ti ei fod wedi deall fod Iesu yn fab i Ti, a bod Iesu'n ein caru ni. Plîs helpa fi i ddeall mwy am Iesu wrth i mi ddarllen hanesion yn y Beibl. Diolch i Ti fod y dyn o Ethiopia wedi penderfynu newid a dilyn Iesu. Plîs helpa finnau i benderfynu dilyn Iesu o ddifri'. Amen.

# Posau

## Map cymysglyd

Mae rhywun wedi cymysgu holl sgwariau'r map. Wnei di eu didoli a'u gosod yn y lle iawn ar y grid?



## Datrys y cod

Allwedd i'r cod:

| A | B | C | CH | D | DD | E | F | FF | G | NG | H | I | L | LL | M | N | O | P | PH | R | RH | S | T | TH | U | W | Y |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |

16 18 14 27 4 28 21 1 21 10 14 27 28 6, 4 13

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _, _ _ _

10 7 17 12 7 5 14 18 7 6 13 10 28 5! 3 1 17 27 4 8 1 27 14

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _! _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

13 6 18, 12 18 15 2 18 2 14 18 7 6 28 2 28 5!

_ _ _, _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

Salm 117 adnod 1

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | S | B | O | N | I | O | A | O | I | Â | E |
| I | L | O | DD | A | D | E | I | S | U | F | TH |
| S | Â | P | D | U | W | TH | S | N | A | L | I |
| T | N | R | M | N | I | PH | N | U | E | G | O |
| E | A | O | Ŵ | E | C | A | I | D | O | S | P |
| DD | D | FF | T | U | L | L | E | F | U | O | I |
| P | Y | W | FF | F | PH | A | Y | D | Ŵ | I | A |
| I | R | Y | I | O | LL | N | S | W | Y | DD | NG |
| L | B | D | Y | B | R | E | C | W | E | Y | E |
| I | S | G | L | Â | N | DD | U | W | R | D | L |
| PH | Y | RH | T | R | Ŵ | D | A | R | LL | E | N |
| S | W | Y | DD | O | G | E | D | E | RH | B | J |

ADDOLI
ANGEL
BEDYDDIO
CERBYD
CLYWED
DARLLEN
DEALL
DIFLANNU
DUW
DŴR
EISTEDD
ESBONIO
ETHIOPIA
FFORDD
GASA
GLÂN
GOFYN
IESU
JERWSALEM
PHILIP
PROFFWYD
RHEDEG
SWYDDOG
TEITHIO
YSBRYD

# Dolenni






Sgetsh bypedau https://youtu.be/W4eN9TWHrIQ

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/G6ehhMets8w



Fideo o'r stori https://youtu.be/vV51OCLutW0



Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=TGEqn7_teFo

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://ww w.youtube.com/channel/UCzhjwum9-XieYxdQY-r1OJw
*(cliciwch 'Subscribe')*

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Sialensau




## Ethiopia

Mae Ethiopia heddiw yn wlad mewn angen. Yn ogystal ag ymdopi â Coronafeirws, maent hefyd wedi cael problemau mawr gyda locustiaid yn dinistrio cnydau eleni a brwydrau arfog mewn rhannau o'r wlad. Mae asiantaethau cymorth yn gweithio gyda phartneriaid lleol i helpu'r bobl yno gan gynnwys Tearfund.


Beth am wneud rhywbeth i godi arian i gefnogi gwaith Tearfund yn Ethiopia? Efallai y gallech chi wneud gweithgaredd noddedig?

https://www.tearfund.org/enWS/about_us/what_we_do_and_where/countries/east_and_central_africa/ethiopia/

## Darlun mawr gan ddefnyddio gwahanol fathau o bapur

Gwna lun mawr o Philip, y dyn o Ethiopia, cerbyd, ceffyl a sgrôl fach. Yna llenwa'r llun i mewn â gwahanol fathau o bapur e.e. papur lliw a defnyddiau eraill i wneud collage o'r stori glywaist ti heddiw.






Beth am geisio gwneud model o'r stori gan ddefnyddio Lego?




## Newyddion da

Rhanna newyddion da gydag aelod o dy deulu neu ffrind. Ffonia neu anfonna neges neu ysgrifenna lythyr i ddweud am rywbeth da sydd wedi digwydd i ti neu dy deulu yn ystod yr wythnosau diwethaf.



# Crefft

## Gwneud dy lyfr bach dy hun








**Byddi angen:**
2 x papur gwyn A4,
1 ddalen A4 o bapur lliw (unrhyw fath),
bocs bwyd gwag,
rhuban tenau - 30 cm (dewisol),
pinnau ffelt, siswrn,
glud, pren mesur,
pensil





1.Plyga'r papur A4 yn ei hanner, ar ei hyd, a thorra fo i wneud 2 betryal hir a main.




2. Plyga un o'r petryalau yn ei hanner.



3. Plyga'r fflap top yn ei hanner unwaith eto.




4. Tro'r papur drosodd a phlyga'r fflap top yn ei hanner unwaith eto.



5. Ddylai dy bapur edrych fel W ar ôl i ti ddilyn y camau blaenorol.


6. Gwna camau 2,3,4 eto efo'r petryal arall.




7.Mae angen i ti ailadrodd camau 1 – 6 gyda'r dudalen arall.




8. Wedi i ti orffen fe ddylet ti gael 4 ohonyn nhw.




9.Gluda pob W yn sownd yn ei gilydd fel acordion. Gwasga nhw at ei gilydd.




10. Agora'r bocs allan a mesura 2 betryal 11cm x 8cm.




11. Gluda 2 gerdyn petryal yn sownd yn y papur lliwgar.



12. Mesura 2cm o gwmpas y ddau gerdyn petryal a thorra nhw allan.




13. Torra'r corneli oddi ar y papur lliw.




14.Gluda a phlygu'r papur lliw drosodd.



15. Rho'r darn o ruban yn sownd yn un o'r cardiau os wyt ti eisiau clymu dy lyfr.




16. Gluda gloriau'r llyfr, un i bob pen o dy lyfr acordion. Gwasga nhw at ei gilydd.



17. Mae dy lyfr yn barod. Nawr fedri di addurno'r cloriau.

## Sut i wneud llyfr heb eiriau

Yn yr hanes heddiw fe wnaeth Philip esbonio'r hyn oedd yn y Beibl i'r dyn o Ethiopia. Beth am i ti wneud lluniau o'r hanes sydd yn yr Efengyl heb ddefnyddio geiriau?






# Rysáit





## Omlet

**Cynhwysion**
- 3 wy wedi'u curo
- 1 llwy de o olew blodyn haul
- 1 llwy de o fenyn

**Cyfarpar**
- Padell ffrio anlynol (non stick)
- Spatula
- Llwy de
- Chwisg/Fforc

**Dull**
1. Ychwanega ychydig o halen a phupur i'r wyau sydd wedi'u curo. Cynhesa'r olew a'r menyn yn y badell ffrio anlynol ar wres cymedrol i isel nes mae'r menyn wedi toddi ac yn ewynnu.
2. Arllwysa'r wyau i mewn i'r badell ffrio a gogwydda'r badell o un ochr i'r llall fel bod yr wyau'n cuddio gwaelod y badell i gyd. Gad i'r gymysgedd goginio am tua 20 eiliad ac yna crafa linell drwy ganol yr omlet gyda'r spatula.
3. Gogwydda'r badell ffrio unwaith eto fel bod yr wy rhededog yn llifo i'r hollt yn y canol. Gwna hyn nifer o weithiau nes bydd y gymysgedd wedi setio'i gyd.
4. Yn awr gelli addurno'r omlet i edrych fel olwyn cerbyd gyda dy hoff gynhwysion. Yn y llun hwn mae'r adenydd olwyn (spokes) wedi'u gwneud allan o dafelli o bupur coch wedi'u ffrio, a'r canol wedi'i wneud allan o domato. Mae madarch wedi'u ffrio ar hyd yr ymyl a'r rheini wedi'u hysgeintio â chaws.

# Canu

Y geiriau wnaeth yr Ethiopiad eu darllen:

Pob un salwch a gymeraist ti,
Pob un poen, a'i ddiodde'n fy lle.
Er fy mod yn mynnu mynd fy ffordd fy hun,
Er fy mod i gymaint ar fai
Cefaist Ti dy gosbi i wneud popeth yn iawn,
Cefaist Ti dy guro i mi gael fy iacháu,
Cymeraist bob un pechod arnat Ti dy hun,
Arglwydd Iesu, Diolch am d'aberth di.

O Dad nefol, trwy farwolaeth Iesu Grist
wnei di faddau, faddau i mi?



Hawlfraint 2020 Nia Wyn Williams ac Andy Hughes

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/G6ehhMets8w

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Gweddi Greadigol

## Ethiopia





Llun: Steve Evans Attribution-NonCommercial 2.0 Generic (CC BY-NC 2.0)

### Gweddio Dros Ethiopia

Yn ein stori'r wythnos hon, wnaeth Philip gyfarfod â dyn pwysig o Ethiopia a'i fedyddio. Erbyn heddiw mae Ethiopia, sydd yn Nwyrain Affrica, yn wlad dlawd ble mae 106 miliwn o bobl yn byw.



Mae cnydau bwyd sy'n tyfu yn Ethiopia a'r gwledydd cyfagos wedi dioddef ymosodiadau gan heidiau anferth o locustiaid eleni. Ysgrifenna weddi yma am fwyd a thros y ffermwyr.

Mewn rhai ardaloedd o Ethiopia mae gwrthryfelwyr arfog yn ymladd yn erbyn y llywodraeth yno. Ysgrifenna weddi'n gofyn am i heddwch ddod i'r wlad.

Mae Ethiopia, fel ein gwlad ninnau ar hyn o bryd, wedi'i heffeithio gan y Coronafeirws ond does ganddyn nhw mo'r ysbytai na'r cyfarpar sydd gennym ni. Ysgrifenna weddi yma am bawb sy'n sâl, y meddygon a'r nyrsys yn Ethiopia.

Mae'r Eglwys yn Ethiopia wedi tyfu'n ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod mwy o bobl wedi dod i ddilyn Iesu fel y gwnaeth y dyn yn y stori. Ysgrifenna weddi yma dros yr Eglwys yno.

# Gweddi Greadigol

## Jar Glitter neu Jar Pelydrol



**Byddi angen**
- Jar dal jam neu rywbeth tebyg sydd â chaead
- ‘Glitter’

**Dull**
- Rho ddŵr yn y jar.
- Ychwanega’r ‘glitter.’
- Yna rho’r caead yn dynn arno. Fe allet ti ludo’r caead yn sownd â gwn glud neu â glud cryf.

**Munud i feddwl**

Cymer y jar a’i ysgwyd yna eistedda’n llonydd yn gwylio’r ‘glitter’ yn syrthio i’w waelod ac yn llonyddu.

Tra mae’r ‘glitter’ yn syrthio meddylia am y stori ddarllenaist ti heddiw.
Fe aeth Philip i’r lle’r oedd Duw wedi dweud wrtho am fynd. Fe siaradodd o gyda’r dyn o Ethiopia. Pan glywodd yr Ethiopiad y neges fod Iesu’n ei garu fe feddyliodd am hynny ac yna fe benderfynodd ddilyn Iesu.

Mae Iesu’n dy garu di.

Wyt ti angen gwneud rhywbeth am hynny?

Gofynna i Dduw beth mae o eisiau i ti ei wneud heddiw?

## Playdough/Clai

Cymer ddarn o Playdough/glai a’i ddal yn dy law.

Rydyn ni’n credu mai Duw wnaeth ein creu ni. Rydyn ni’n credu hefyd y bydd Iesu’n ein newid a’n gwneud ni’n newydd pan ofynnwn iddo fod yn ffrind i ni.

Gyda’r clai gwna siâp person.
Meddylia wedyn sut y gwnaeth Duw newid bywyd y dyn o Ethiopia wedi iddo fo glywed am Iesu. Fe gredodd ac fe aeth yn ôl i Ethiopia a dywedodd wrth lawer iawn o bobl fod Iesu’n eu caru nhw.



Gofynna i Iesu dy wneud di’n newydd heddiw.



# Gemau



## Llenwi'r bwced hefo dŵr



*Gêm i'w chwarae tu allan*

**Bydd angen:**
- Bwced o ddŵr
- 2 sbwng
- 2 fwced neu 2 bowlen yr un maint i wasgu'r sbwng iddyn nhw
- 2 chwaraewr neu fwy

**Sut i chwarae**
- Ar gyfer pob chwaraewr, gosoda'r bwced o ddŵr yn un pen i'r ardd a'r pen arall, tua 10 cam i ffwrdd, gosoda'r bwced arall (new bowlen) a spwng.
- Mae pob chwaraewr yn rhedeg at y bwced ddŵr ac yn llenwi ei sbwng gyda dŵr.
- Mae'n rhedeg yn ôl at ei bwced ac yn gwasgu'r dŵr o'r sbwng i mewn i'w bowlen.
- Mae'r ddau chwaraewr yn cael 10 tro i nôl dŵr o'r bwced.

Yr enillydd ydy'r chwaraewr gyda'r mwyaf o ddŵr yn ei bowlen.
Os wyt ti'n chwarae ar dy ben dy hun, gelli gael ail dro a gweld os wyt ti'n gallu casglu mwy o ddŵr.

Ar ddiwedd yr hanes mae'r dyn o Ethiopia eisiau cael ei fedyddio mewn dŵr i ddangos ei fod wedi newid ac eisiau dilyn Iesu.

## Gwthio'r car

*Gêm i'w chwarae tu allan*

**Bydd angen:**
- Car tegan i bob chwaraewr
- Potel blastig wag y gelli ei gwasgu - fel potel siampŵ - i bob chwaraewr
- Dŵr

**Sut i chwarae:**





- Penderfyna ble mae'r ceir yn cychwyn ac yn gorffen y ras.
- Llenwa'r botel blastig gyda dŵr.
- Mae pob chwaraewr yn gosod ei gar tegan ar y llinell gychwyn.
- Ar ôl tri, mae pob chwaraewr yn gwasgu'r dŵr o'r botel yn erbyn y car i'w symud ymlaen.

Yr enillydd ydy'r car cyntaf i groesi'r llinell i orffen y ras.

Roedd y dyn o Ethiopia yn teithio mewn cerbyd. Sut oedd y cerbyd yn symud?

## Rasio at y Dŵr

Dywedodd yr Ethiopiad ei fod eisiau cael ei fedyddio'n ddi-oed. Tra'r wyt ti'n chwarae'r gêm hon meddylia am y ffordd a wnaeth yr Ethiopiad weithredu pan glywodd y neges gan Philip.



**Byddi angen:**
- Tua 10 darn o Lego neu 10 model o bobl blastig
- Bwced o ddŵr
- Amserydd

**Sut i Chwarae**
- Gosoda'r bobl blastig neu'r Lego yn un pen i'r ardd.
- Rho'r bwced y pen arall i'r ardd.
- Mae angen i ti gael rhywun i dy amseru neu i rasio'n dy erbyn. (Os oes dau berson yn chwarae, rhanna'r Lego rhyngoch chi a byddwch angen dau bwced o ddŵr - un bob un.)
- Rheda i nôl un person plastig neu un darn o Lego o un pen i'r ardd i'r pen arall a'i osod yn y bwced.
- Faint o amser wnest ti ei gymryd i wneud hyn? Dos eto a cheisia guro'r amser blaenorol.